**CYNGOR SIR**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Mawrth, 7 Mai 2013 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley (Is-Gadeirydd), Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), William Cowie, Ann Davies, James Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Margaret McCarroll, Jason McLellan, Barry Mellor, Win Mullen-James, Bob Murray, Peter Owen, Dewi Owens, Merfyn Parry, Paul Penlington, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

**HEFYD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Cyfreithiol a Gweinyddu (RGW), Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad (AS), a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

**1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Meirick Davies a/ac Arwel Roberts

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Nododd y Cynghorwyr Brian Blakeley, Stuart Davies, Hugh Evans, Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts, Geraint Lloyd-Williams, Barry Mellor, David Simmons a Cheryl Williams bod ganddynt gysylltiad personol yn yr eitem "Effeithlonrwydd Gweithlu" (Eitem Rhaglen 10).

**3 CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

Rhoddodd Cadeirydd y flwyddyn flaenorol, y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones, araith lle adlewyrchodd ar ei hamser fel Cadeirydd a thynnodd sylw at nifer o ddigwyddiadau a gynhaliwyd dros y deuddeg mis diwethaf, gan gynnwys y Jiwbilî Brenhinol a'r Gemau Olympaidd. Adlewyrchodd y Cadeirydd hefyd ar y llifogydd yn y sir a'r bobol oedd wedi'u heffeithio ac wedi colli cymaint. Roedd yr eira trwm hefyd wedi effeithio ar lawer o bobl ac wedi achosi caledi, a talodd deyrnged i'r gwasanaethau a fu'n ymdrin â'r amodau garw. Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at ddamwain car ddifrifol ei gŵr a nododd ei fod rŵan yn gwella yn dda. Diolchodd hefyd i'r y Cynghorydd Bill Cowie a fu gyda hi i rai digwyddiadau pan oedd ei gŵr yn gwella. Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i nodi pa mor falch oedd hi o'r Cyngor, a

bod y swyddogion a’r staff wedi ymdrin ag anawsterau mawr yn y 12 mis diwethaf, a diolchodd yn fawr iddynt. Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle hefyd i ddiolch i'w chyd-gynghorwyr am eu cefnogaeth. Diolchwyd yn arbennig i’r Is-gadeirydd, Raymond Bartley, a’i wraig Dorothy. Diolchwyd hefyd i Eleri Woolford, Rheolwr Datblygu a Chefnogi Aelodau, Lona Haf Williams, Swyddog Cefnogi Aelodau, y Canon John Glover, Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, a Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

Cyflwynodd y Cadeirydd y sieciau ar gyfer yr arian a godwyd i wahanol elusennau yn ystod ei chyfnod fel Cadeirydd:

(i) Derbyniodd Jackie Jeffrey y siec am £2000 ar ran Hosbis Sant Cyndeyrn, Llanelwy.
(ii) Derbyniodd Martin Jones o Fad Achub y Rhyl siec am £2000.
(iii) Derbyniodd Miriam Wright siec am £1000 ar ran Vision Support. Roedd Dennis Williams sy’n gweithio yn y Ganolfan Adnoddau yn y Rhyl, a John Graham, Ymddiriedolwr Vision Support, hefyd yn bresennol i dderbyn y siec.

Rhoddodd y Cadeirydd hefyd anrhegion i’w Chaplan, y Canon John Glover, y Rheolwr Datblygu a Chefnogi Aelodau, y Swyddog Cefnogi Aelodau, y Cynghorydd Bill Cowie, y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a’r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i gydnabod eu cefnogaeth yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

Yna, estynnodd y Cadeirydd wahoddiad am enwebiadau ar gyfer penodi Cadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer 2013/14. Cynigiodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans y dylid penodi’r Cynghorydd Raymond Bartley yn Gadeirydd, gan amlinellu'r rhinweddau a’r profiad personol y byddai’n eu cyfrannu i’r swydd. Eiliodd y Cynghorydd David Smith y cynnig, gan ychwanegu ei fod yn bleser i eilio ar gyfer y Cynghorydd Bartley, a dymunodd yn dda iddo gyda’r enwebiad. Gan nad oedd unrhyw enwebiadau eraill, ac yn dilyn pleidlais trwy godi dwylo, etholwyd y Cynghorydd Raymond Bartley yn unfrydol yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2013/14.

Dymunodd y Cadeirydd blaenorol y gorau i’r Cadeirydd newydd i’r dyfodol a rhoddodd Gadwyn Swydd y Cadeirydd iddo ac yna cwblhaodd ei Ddatganiad Derbyn Swydd. Rhoddodd Cymar y cyn Gadeirydd y Gadwyn Swydd i Gymar y Cadeirydd newydd. Talodd y Cadeirydd newydd deyrnged i waith y Cadeirydd blaenorol a rhoddodd fathodyn y Cyn Gadeirydd iddi, plac ac anrheg ar ran y Cyngor.

Enwodd y Cadeirydd newydd y Parch. Wayne Roberts fel ei Gaplan ar gyfer y flwyddyn, a rhoddodd wybod mai ei elusennau dewisol yw Hosbis Sant Cyndeyrn, Llanelwy a Hosbis Tŷ Gobaith.

## 4 IS-GADEIRYDD Y CYNGOR

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd.

Cynigodd y Cynghorydd Joan Butterfield y dylid ethol y Cynghorydd Brian Blakely yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2013/14. Cyfeiriodd at brofiad helaeth y Cynghorydd Blakeley a'r ffaith ei bod mor uchel ei barch yn nhref y Rhyl ac yn y Sir. Eiliodd y Cynghorydd Colin Hughes yr enwebiad. Gan nad oedd unrhyw enwebiadau eraill, ac yn dilyn pleidlais trwy godi dwylo, etholwyd y Cynghorydd Brian Blakeley yn unfrydol yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2013/14.

Rhoddodd y Cadeirydd Gadwyn Swydd yr Is-gadeirydd i'r y Cynghorydd Blakeley ac yna cwblhaodd ei Ddatganiad Derbyn Swydd.

Rhoddodd Cymar y Cadeirydd newydd y cadwyn swydd i Gymar yr Is-gadeirydd newydd.

Yna, talodd yr Arweinwyr Grŵp deyrnged i waith y Cadeirydd blaenorol yn ystod y deuddeg mis diwethaf a llongyfarchwyd y Cynghorwyr Raymond Bartley a Brian Blakeley ar gael eu hethol yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd.

**Ar y pwynt hwn (10.50 a.m.) cymerodd y Cyngor egwyl am luniaeth a gwnaethant ailymgynnull am 11.10a.m.**

## 5 COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD

Croesawodd y Cadeirydd Mr Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a Hannah Humphreys, Prif Weithredwr Comisiynydd yr Heddlu.

Llongyfarchodd Mr Roddick y Cynghorwyr Raymond Bartley a Brian Blakeley ar gael eu hethol yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd Cyngor Sir Ddinbych, a dymunodd yn dda iddynt ar gyfer y dyfodol.

Amlinellodd Mr Roddick ei nodau ar gyfer y dyfodol.

Y dyletswyddau pennaf oedd darparu llu heddlu effeithiol ac effeithlon sy'n rhoi gwerth am arian ac, yn bwysicaf oll, yn lleihau trosedd. Bydd cyflawni'r nodau hyn yn cysuro'r cyhoedd eu bod yn ddiogel yn eu cartrefi ac mewn mannau cyhoeddus. Bydd y berthynas rhwng y Cynllun Heddlu a Throsedd a chyllideb yr heddlu o bwysigrwydd mawr a sicrhau eu bod yn gysylltiedig â natur newidiol y gofynion, capasiti a galluedd a bod y rhain yn cael eu heffeithio yn uniongyrchol gan gyfyngiadau cyllidebol.

Mae pedwar prif amcan yn y Cynllun Heddlu a Throsedd:-

(i) LLleihau Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
(ii) Diogelu pobl a lleihau niwed
(iii) Darparu gwasanaeth o ansawdd sy'n diwallu anghenion ein cymunedau
(iv) Hybu gweithlu sy'n cael ei arwain yn dda, sy'n drefnus ac yn fedrus.

Y tri prif ganlyniad sydd i'w cyflawni trwy'r amcanion yw:-

(i) Diogelwch yn y cartref

(ii) Diogelwch mewn mannau cyhoeddus
(iii) Heddlu gweledol a hygyrch

Hyd y Cynllun yw pum mlynedd a bydd hyn yn cael ei adolygu yn rheolaidd yn dilyn newidiadau i ganllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol ac unrhyw newidiadau pwysig eraill i amgylchiadau.

Datblygwyd Panel yr Heddlu a Throsedd yn 2012. Mae gan y Panel gyfrifoldebau statudol i graffu ar weithgareddau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, gyda'r Prif Gwnstabl, wedi sefydlu Cydbwyllgor Archwilio, a'i bwrpas oedd cefnogi a herio rhai gweithgareddau penodol gan y llu heddlu a swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a rhoi atebion adeiladol ar gyfer gwelliannau.

Bydd Cynllun Darparu Gweithredol yn cael ei sefydlu i fynd i'r afael â throseddau gwledig, sydd wedi cynyddu yn ddiweddar.

Sefydlwyd tîm/uned trais a cham-drin rhywiol penodedig. Bydd hwn yn weithredol yn syth.

Cynyddwyd praesept Treth y Cyngor, a gyda'r arian ychwanegol bydd 51 o swyddogion heddlu ychwanegol yn cael eu recriwtio.

Yn dilyn y cyflwyniad, manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i ofyn cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd:-

(i) Mae'r Cod Ymarfer Dioddefwyr wrthi'n cael ei ailddrafftio. Yn flaenorol, roedd arian yn cael ei ddosbarthu gan y Swyddfa Gartref a'i ddiogelu, ond bydd y swyddogaeth hon yn cael ei chymryd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ac ni fydd yn cael ei ddiogelu.
(ii) Roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi ymweld ag ardaloedd difreintiedig gorllewin a de-orllewin y Rhyl. Roedd camerâu fideo yn cael eu defnyddio yn rhagorol yn yr ardal. Mae presenoldeb rhagor o swyddogion heddlu ar y stryd yn hollbwysig.
(iii) Nid yw'r 51 swyddog heddlu ychwanegol yn eu swydd eto, ond byddant yn eu swydd yn fuan.
(iv) Y nod yw atal troseddwyr ailadroddus ac i gyflawni hyn mae'n rhaid cydweithio gyda phartneriaethau eraill. Byddai'r gost i'r gymuned yn uwch pe bai trosedd wedi'i chyflawni. Byddai costau ynghlwm â charcharu, gall yr effaith ar y dioddefwr fod yn enfawr a byddai cost ymdrin â'r dioddefwr yn helaeth. Yn y tymor hir roedd yn arbed arian i drethdalwyr i atal trosedd.
(v) Nid oes gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd unrhyw swyddogaeth mewn perthynas â rhybuddion cosb benodedig. Gall adlewyrchu ar y mater hwn ac archwilio i a yw rhybuddion cosb benodedig yn lleihau trosedd.
(vi) Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd chwech o staff ar hyn o bryd. Nid oes Swyddog Cyllid wedi'i benodi eto. Mae'n bwysig bod â chyswllt gydag ieuenctid, ond cadarnhaodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd na fydd Comisiynydd Ieuenctid yn cael ei benodi.

(vii) Ar ôl diwedd y cynllun gwylio ffermydd, bydd cynllun newydd yn cael ei sefydlu fydd yn helpu i leihau troseddau gwledig.

(viii) Mae Diogelwch Cymunedol yn fater pwysig iawn, ond nid yr heddlu yw'r unig rai sydd angen sicrhau hyn, ac mae gwaith ar y gweill i sicrhau gwaith partneriaeth. Os oes gan y Cynghorwyr unrhyw faterion sydd angen eu cyfeirio i Banel yr Heddlu a Throsedd, bydd angen eu cyfeirio trwy'r Cynghorydd Bill Cowie, sef cynrychiolydd y Panel.

(ix) Mae'r system Owl yn dda, ond mae'n dibynnu ar ba ardal cod post y mae preswylwyr yn byw. Er enghraifft, mae pob rhybudd trosedd sy'n cael eu derbyn gan unigolion sy'n byw mewn ardal wledig yn Sir Ddinbych gyda'r cod post "CH" yn ymwneud â Sir y Fflint, sy'n amherthnasol i god post ardal Sir Ddinbych.

(x) Mae'r canlyniadau yn cael eu mesur gan fodolaeth y Cynllun. Mae ystadegau yn dangos a yw'r nodau wedi bod yn llwyddiannus. Mesurwyd y canlyniadau gan gyfeirio at gynllun gweithredu y mae'r Prif Gwnstabl wedi'i lunio.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd am ddod i'r cyfarfod Cyngor Blynyddol a dymunodd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol yn ei swydd.

**Ar y pwynt hwn (12.05 pm) cymerodd y Cyngor egwyl dros ginio gan ailddechrau am 1.00 pm.**

Cyn dechrau sesiwn y prynhawn, rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r cyfarfod Cyngor Blynyddol y bydd trefn y cyfarfod yn cael ei ddiwygio. Bydd Effeithlonrwydd Gweithlu yn cael ei symud ymlaen ar y Rhaglen, ond bydd pob eitem arall yn mynd yn eu trefn. Bydd y cofnodion yn adlewyrchu trefn newydd yr eitemau.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Huw Jones Glwb Pêl-droed Tref Prestatyn am ennill y gwpan ddoe. Llongyfarchodd y Cynghorydd Huw Jones a'r Cynghorydd Win Mullen James Glwb Pêl-droed y Rhyl oedd wedi cwblhau'r tymor pêl-droed heb golli yr un gêm. Clybiau eraill sydd hefyd wedi gwneud yn dda y tymor hwn yw Llanelwy a Llandyrnog.

## 6 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

## 7 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 9 Ebrill 2013.

**Cywirdeb –** Tudalen 6, Eitem 5 – nododd y Cynghorydd Alice Jones y dylai'r paragraff olaf ar dudalen 6 nodi "Gwasanaethau Llawdriniaeth Brys" ac nid "Gwasanaethau Brys".

**Materion yn Codi –** Tudalen 6, Eitem 5. Rhoddodd y Cynghorydd Alice Jones wybod i'r aelodau bod ateb wedi'i dderbyn gan Sally Baxter, BIPBC sy'n ymwybodol bod aelodau yn bryderus am y gwasanaeth llawdriniaeth brys yn Ysbyty Glan

Clwyd. Hyd yma, ni wnaethpwyd unrhyw benderfyniad, ond os bydd newid sylweddol i'r trefniadau presennol, cynhelir ymgynghoriad ffurfiol.

Tudalen 10, Eitem 9 – cadarnhaodd y Cynghorydd Colin Hughes bod y Weinidogaeth Gyfiawnder wedi cysylltu â Chyngor Tref Dinbych ac wedi cadarnhau bod y tir dan sylw yn ddigon mawr ar gyfer y carchar newydd.

## 8 EFFEITHLONRWYDD YN Y GWEITHLU

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad oedd yn manylu ar yr arbedion sydd eu hangen i gyflawni'r effeithlonrwydd gweithlu yn y gyllideb.

Esboniodd y Prif Weithredwr bod yr eitem wedi'i hystyried yn y cyfarfod Cyngor blaenorol a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2013. Roedd yn amlwg o'r cyfarfod hwnnw nad oedd aelodau'r LJCC yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, ac roedd yr Aelodau eisiau i'r Cyngor weithio yn galed iawn gydag undebau llafur i ddod i setliad y cytunir arno.

Mae gwaith wedi'i wneud yn barhaus ers y cyfarfod ar 9 Ebrill. Cynhaliwyd dau gyfarfod LJCC ers hyn. Daethpwyd i benderfyniad i argymell y cynnig i'r Aelodau a'r Undebau Llafur.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol, bod trafodaethau wedi'u cynnal gydag Ysgrifenwyr ar y Cyd, Undebau Llafur a'r LJCC. Y tri phrif faes pryder gan yr Undebau Llafur oedd:-

- Cynnwys cymal mewn cytundebau cyflogaeth unigol sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithwyr y mae teithio yn rhan hanfodol o'u swydd i sicrhau bod eu car eu hunain ar gael ar gyfer y teithiau hynny.
- Effaith y cynigion ar weithwyr ar gyflog is.
- Diffyg trafodaeth fanwl ar y newidiadau bwriedig i ddiogelwch tâl a lwfans aflonyddwch.

Y cynnig i'w ystyried gan yr Undebau Llafur rŵan yw:-

(1) Cyflawni arbedion cyllideb parhaol o gostau gweithlu sydd cymaint â £510k erbyn mis Mawrth 2015. Bydd angen £200k o'r arbedion hyn yn 2013/14 a bydd angen dod o hyd i'r gweddill yn 2014/15.

(2) Bydd y rhain yn cael eu cyflawni trwy:

   a. Ddileu'r Lwmp Swm Defnyddiwr Car Hanfodol yn syth o 1 Mehefin 2013. Bydd hyn yn gwireddu arbediad o £194k yn 2013/14.
   b. I roi amser i staff addasu i'r newidiadau, bydd cyfraddau milltiredd ar y gyfradd Defnyddiwr Achlysurol presennol, sef 52.2c y filltir yn ystod y cyfnod trawsnewid, ac yna bydd cyfradd pob staff yn symud i gyfradd yr HMRC (sef 45c y filltir hyd at 10,000 milltir).
   c. Bydd y cyfnod trawsnewid fel a ganlyn:
      - 10 mis (hyd at ddiwedd Mawrth 2014) ar 52.2c, ac yna
      - 3 mis (hyd at ddiwedd Mehefin 2014) ar 47c
      - Lleihau i gyfradd yr HMRC (45c ar hyn o bryd) ar gyfer pob defnyddiwr o 1 Gorffennaf 2014

d. Bydd hyn yn galluogi cyflawni arbediad o £426k dro ar ôl tro o 1 Ebrill 2015. Ond, bydd cost ychwanegol i'r Awdurdod yn y cyfnod trosglwyddo, o'r hyn a ragdybiwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae effaith hyn wedi'i gynnwys yn yr arbedion uchod ar gyfer 2013/14. Ar gyfer 2014/15, amcangyfrifir bod y gost/llithriad ychwanegol o ran arbedion yn £142k.
e. Bydd y Cyflogwyr a'r Undebau yn cydweithio i sicrhau arbedion blynyddol ychwanegol dros dro i ymdrin â'r llithriad.

(3) Er mwyn lleihau'r effaith ar aelodau staff unigol, bydd unrhyw weithiwr sy'n teithio dros 6,500 milltir y flwyddyn yn cael cynnig defnyddio car i'w rannu. Bydd hyn yn drefniant gwirfoddol a bydd ar gael i staff o 1 Mehefin 2013.

(4) Bydd teithio yn parhau i fod yn ofyniad hanfodol fel rhan o swydd rhai gweithwyr. Bydd hyn yn cael ei gynnwys mewn cytundebau unigol ond ni fydd angen i staff ddefnyddio eu cerbyd eu hunain os nad ydynt eisiau, neu os nad ydynt yn gallu. Ond, bydd disgwyl iddynt deithio yn brydlon ac yn unol â gofynion eu swydd. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gydag unrhyw aelod staff sy'n dymuno ymchwilio i drefniadau teithio eraill a chytuno ar drefniadau addas eraill gyda nhw, gan gynnwys mynediad i gerbydau i'w rhannu.

(5) Cytunodd yr Undebau Llafur i argymell y cynnig hwn i'w Haelodau a gweithio gyda'r Cyngor i hyrwyddo ymateb cadarnhaol i unrhyw bleidlais gyda'r bwriad o sicrhau cytundeb.

(6) Cytunodd yr Undebau Llafur hefyd i ymrwymo i drafodaethau llawn ac ystyrlon a gweithio gyda Chyflogwyr i sicrhau'r £72k sy'n weddill mewn arbedion gweithlu i ddiwallu'r targed a nodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, gan gydnabod bod y Cyngor eisoes wedi lleihau'r targed o £1.5M i £762k.

(7) Cynhelir trafodaethau gyda'r bwriad o ddod i gytundeb ar y £72k sy'n weddill erbyn 30 Medi 2013 fan bellaf, a'u gweithredu yn llawn yn ystod 2014/15

(8) Y man cychwyn ar gyfer y balans arbedion o £72k fydd y newidiadau arfaethedig i ddiogelwch tâl a threfniadau milltiredd aflonyddwch; ond, mae'r Cyflogwyr yn fodlon trafod dewisiadau eraill sy'n cael eu cynnig gan yr Undebau Llafur ac ymrwymo i weithio gyda nhw i archwilio'r dewisiadau realistig eraill a gynigir.

(9) Mae'r ddwy ochr wedi ymrwymo i ddod i gytundeb ar gynnig i'w argymell i aelodau'r Undebau Llafur ac i'r Cyngor Llawn erbyn cyfarfod y Cyngor ar 7 Mai 2013. Os nad ydynt yn gallu dod i gytundeb, bydd gan Gyflogwyr yr hawl i gyflwyno eu cynigion eu hunain i'r Cyngor yn lle'r sefyllfa y cytunwyd arno.

***PENDERFYNWYD*** *y bydd y Cyngor yn-*

*(a) Cytuno ar y cynnig diwygiedig a ddatblygwyd ar ôl trafodaethau pellach gyda'r Undebau Llafur fel y nodwyd uchod.*

*(b) Nodi y bydd yr Undebau Llafur yn cynnal pleidlais gyda'u haelodau ar y cynnig a argymhellwyd gyda'r nod o ddod i gytundeb*

(c) *Nodi'r pwysau cyllidebol o £143k yn 2014/15 sy'n deillio o'r trefniadau trosglwyddo arfaethedig ac ymrwymiad yr Undebau Llafur i weithio gyda'r Cyngor i nodi arbedion blynyddol i liniaru'r pwysau.*

(d) *Nodi y bydd trafodaethau ar yr arbedion £72.5k terfynol yn dod i ben gyda'r Undebau Llafur erbyn 30 Medi 2013, fan bellaf.*

## 9 MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2011

Cyflwynodd y Cynghorydd Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â gweithredu'r Mesur a gofyn am farn yr Aelodau ynglŷn â'r ffordd ymlaen mewn perthynas â materion sydd angen eu gweithredu.

Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd nad oedd yn ceisio penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad, ond ei fod eisiau barn yr Aelodau cyn i'r materion yn yr adroddiad gael eu hystyried yn fanylach a chael penderfyniad terfynol gan y Cyngor.

Mae 10 rhan i'r mesur. Rhannau 1, 5 a 6 sydd fwyaf perthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.

**Rhan 1 – Cryfhau Democratiaeth Lleol.**

- Darparu ar gyfer cynnal arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr aflwyddiannus yn yr etholiad diwethaf oedd yn gofyn cwestiynau penodedig ynglŷn â rhyw, oed, iaith, hil, anabledd, tueddfryd rhywiol, crefydd, iechyd, addysg a chyflogaeth. Mae'n rhaid cyflwyno'r atebion i Lywodraeth Cymru fydd yn cyhoeddi'r canlyniadau o fewn 12 mis.
- Cynhaliwyd arolwg, a'i ailadrodd oherwydd yr ymateb cymharol isel, i ganfod ffafriaeth ynglŷn ag amseroedd a lleoliadau cyfarfodydd. Bydd yr wybodaeth yn cyfrannu at y gwaith sy'n cael ei wneud gan swyddogion ar gyfer y Prif Weithredwr mewn perthynas ag amseroedd a lleoliadau cyfarfodydd. Nid yw'r atebion i'r arolwg wedi awgrymu unrhyw awydd i newid.
- Nid yw'r ddarpariaeth i aelodau fynychu cyfarfodydd o bell mewn grym eto, ond rydym yn aros am arweiniad. Bydd llawer o faterion llywodraethu a thechnolegol i ymdrin â nhw cyn y bydd presenoldeb o bell wedi'i sefydlu. Ni fydd cworwm mewn cyfarfod os oes llai o bobl yn yr ystafell nag sy'n bresennol o bell. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi grant i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru ar gyfer y cynllun. Bydd gweddarlledu cyfarfodydd yn galluogi'r cyhoedd i weld cyfarfodydd naill ai yn fyw, neu ar y rhyngrwyd. Trefnwyd arddangosiad gweddarlledu sydd i'w gynnal ar 15 Mai.
- Bydd angen gofyniad i bob awdurdod lleol wneud trefniadau i Aelodau unigol lunio adroddiad blynyddol o'u gweithgareddau fel aelod. Mae'n rhaid i'r awdurdod hefyd wneud trefniadau i gyhoeddi'r adroddiadau blynyddol hyn. Bydd templed yr adroddiad blynyddol yn cael ei lunio i alluogi'r aelodau i ychwanegu'r testun yn unig.
- Bydd angen i Awdurdodau Lleol sicrhau darpariaeth cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol ar gyfer aelodau. Bydd gan aelodau gyfle i adolygu eu hanghenion hyfforddi a datblygu yn flynyddol.

**Rhan 5 – Swyddogaethau Awdurdod Lleol: I'w Cyflawni gan Bwyllgorau a Chynghorwyr.**

Mae darpariaeth i wneud y meini prawf ar gyfer sefydlu pwyllgorau ardal yn fwy hyblyg a dirprwyo'r pwerau gwneud penderfyniadau iddyn nhw.

Mae darpariaeth hefyd i'r Arweinydd wneud trefniadau i aelod nad yw'n weithredol i wneud penderfyniadau wedi'u dirprwyo mewn perthynas â swyddogaeth weithredol. Gall y Cyngor hefyd ddirprwyo penderfyniadau mewn perthynas â swyddogaethau nad ydynt yn weithredol i aelodau nad ydynt yn weithredol. Bydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer ward y Cynghorydd ei hun yn unig, neu mewn perthynas â chorff allanol y maent wedi'u penodi iddo. Gall Weinidogion Cymru wneud gorchymyn yn nodi swyddogaethau sydd ddim i'w dirprwyo a gallant roi arweiniad. Nid ydynt wedi gwneud hyn eto.

**Rhan 6 – Trosolwg ac Archwilio**

Pŵer i un neu fwy o Awdurdodau lleol fod â Chydbwyllgor Archwilio. Wrth sefydlu Cydbwyllgor Archwilio, mae'n rhaid i'r Cynghorau ystyried arweiniad a roddwyd gan Weinidogion Cymru.

Os yw dau neu fwy o awdurdodau wedi penodi cydbwyllgor archwilio, mae'n rhaid iddynt ymrwymo i gytundeb sy'n nodi'r materion y gall y pwyllgor gyflwyno adroddiadau ac argymhellion ynglŷn â nhw.

Bydd gan Gadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio hawl i gael taliad yn unol ag argymhelliad y Panel Cydnabyddiaeth Tâl Annibynnol. Yn achos Sir Ddinbych, bydd hwn yn gyflog uwch ar y lefel sy'n cael ei dalu i Gadeiryddion Archwilio.

Gwneir ymdrech i sicrhau bod y cyhoedd yn cymryd mwy o ran ac yn ymwybodol o'r broses graffu.

Mynegodd y Cynghorydd Bobby Feeley ei barn fel a ganlyn:-

- roedd yn deall mai pwrpas y Mesur oedd cryfhau democratiaeth ond roedd yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru eisiau gwneud mwy o benderfyniadau ynglŷn â sut y mae aelodau lleol yn gweithio.
- Gall gweithio o bell fod yn broblem os yw mwy na dwsin o aelodau yn penderfynu gweithio o bell.
- Adroddiadau Blynyddol - bydd problem ynglŷn â chostau cyfieithu
- Penderfyniadau wedi'u dirprwyo – gall hyn achosi rhagor o benderfyniadau anghywir.
- Bydd angen arweiniad ynglŷn â sut y gall y cyhoedd gael rhagor o gyfle i gyfrannu a dweud eu dweud.

Dywedodd y Cynghorydd Feeley y byddai'n anfodlon gweld unrhyw newid yn cael ei sefydlu i gwestiynu'r broses ddemocrataidd. Nododd y Cynghorydd Feeley hefyd ei bod yn anfodlon gydag agweddau ariannol y mesur, a mynegodd bryder y byddai'n tanseilio awdurdod lleol sydd eisoes yn fregus.

***PENDERFYNWYD*** *ar ôl ystyried yr adroddiad ac yn amodol ar yr uchod, y dylai'r Aelodau nodi'r adroddiad.*

## 10 POLISÏAU A GWEITHDREFNAU DIOGELU DATA A RHYDDID GWYBODAETH.

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad (PCBP) yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i roi'r Polisïau a Threfnau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data diwygiedig i'r Cyngor.

Esboniodd y PCBP bod llawer mwy o wybodaeth rŵan yn cael ei chadw yn electronig. Mae hyn wedi bod yn destun Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ac Adroddiad Archwilio Mewnol. Mae'n ofyniad i sefydlu polisïau diwygiedig yn barod ar gyfer newidiadau a ddaw i rym gan yr UE yn gynnar y flwyddyn nesaf.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r Cyngor:-*

*(i) Gymeradwyo'r dogfennau polisi a'r gweithdrefnau.*
*(ii) Cymeradwyo'r diwygiadau i'r cynllun dirprwyo swyddogion mewn perthynas â'r Panel Eithrio Hawl i Wybodaeth.*
(iii) *Dirprwyo swyddogaeth yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth i'r Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad a dirprwyo swyddogaeth y Swyddog Diogelu Data i'r Dirprwy Swyddog Monitro.*
(iv) *Awdurdodi'r Swyddog Monitro i ddiwygio'r Cyfansoddiad mewn perthynas ag argymhellion (ii) a (iii).*

## 11 ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR ARCHWILIO'R CYNGOR

Cyflwynodd y Cynghorydd Colin Hughes Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i'r Aelodau ei ystyried.

Diolchodd y Cynghorydd Hughes i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, y Cydlynydd Archwilio a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd am eu gwaith caled wrth lunio'r ddogfen.

Nid yw'r hunanwerthusiad wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol oherwydd bod Sir Ddinbych eleni, fel pob awdurdod lleol arall yng Nghymru, yn cymryd rhan yn yr Astudiaeth Gwella Craffu a hwyluswyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) Felly, penderfynwyd na fyddai cynnal hunanwerthusiad ar wahân i bwrpasau Adroddiad Blynyddol yn ddefnydd effeithiol o adnoddau.

Mynegodd y Cynghorydd David Smith siom yn y ffaith nad oedd yr hunanwerthusiad wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r Cyngor dderbyn Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio'r Cyngor 2012/13.*

## 12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (PGCD) Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 2.30pm.**